# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 20 Gorffennaf 2017

Amser: 09.30 - 11.40

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4190

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AC (Cadeirydd)<br>Michelle Brown AC<br>John Griffiths AC<br>Llyr Gruffydd AC<br>Julie Morgan AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant<br>Jo-anne Daniels, Llywodraeth Cymru<br>Albert Heaney, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Hasera Khan (Dirprwy Glerc)<br>Hywel Dafydd (Ymchwilydd) |

**Trawsgrifiad**

Gweld [trawsgrifiad o drafodion y cyfarfod] (PDF 371KB) [Gweld fel HTML] (230KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau. Cafwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar a Hefin David. Ni chafwyd dirprwyon ar eu rhan.

Cofnododd y Cadeirydd ddiolch y Pwyllgor i Anne Thomas o Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru a dymunodd yn dda iddi yn ei hymddeoliad.

## 2 Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant - sesiwn graffu gyffredinol

Cytunodd Ysgrifennydd y Cabinet i ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig ychwanegol am y canlynol:

- Proses yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau'r Plentyn, gan gynnwys y system sydd ar waith i fonitro ei ddefnydd ac enghreifftiau o newidiadau i bolisi sydd wedi digwydd o ganlyniad i Asesiad;
- Annibyniaeth gymharol model comisiynwyr statudol Cymru o gymharu â'r rhai mewn gwledydd eraill (yn canolbwyntio ar y Comisiynydd Plant yn arbennig);
- Yr amserlenni sy'n gysylltiedig â meysydd arloesedd Rhoi Plant yn Gyntaf;
- Y diweddaraf am pryd y caiff y strategaeth gweithlu gofal plant ei chyflwyno, a rhagor o fanylion am ei chynnwys a'r cynllun ar gyfer ei gweithredu;
- Y gwaith a wneir gan ei dîm mewn perthynas â phlant a phobl ifanc wrth baratoi ar gyfer y DU yn gadael yr UE;
- Manylion am werthusiadau (academaidd) diweddar Dechrau'n Deg a chynlluniau tebyg eraill sy'n seiliedig ar god post, gyda chymariaethau penodol o ganlyniadau ar gyfer y plant hynny sy'n cael mynediad i'r cynlluniau a'r rhai nad ydynt.

Yn gynnar yn nhymor yr hydref, aeth Ysgrifennydd y Cabinet ati hefyd i ddarparu ymateb pendant i'r cwestiwn ynghylch a fydd yn ailsefydlu'r Grŵp Cynghori Allanol ar Eiriolaeth.

## 3 Papurau i'w nodi

Nodwyd y papurau.

**3.1 Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes - Gwaith Ieuenctid**

**3.2 Llythyr oddi wrth Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes – Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol**

**3.3 Llythyr oddi wrth y Cadeirydd at Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon - Fframwaith Diwygiedig ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru**

**3.4 Llythyr gan y Llywydd - Gweithredu Deddf Cymru 2017**

**3.5 Datganiad gan Gomisiynydd Plant Cymru - Sylwadau Terfynol Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

**3.6 Llythyr gan y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes –Rhaglennu deddfwriaeth sydd ar y gweill**

**3.7 Datganiad gan Grŵp Monitro CCUHP Cymru - pen-blwydd swyddogol cyntaf Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn**

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod.

Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Cyfarwyddyd Ariannol a Hawliadau

Trafododd y Pwyllgor bapur ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol a chytunwyd y byddai adroddiad drafft yn cael ei ystyried yn nhymor yr hydref.

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 - trafod y dull gweithredu

Cytunodd y Pwyllgor ar y dull gweithredu.

## 7 Llythyrau gan y Llywydd - Rhaglennu deddfwriaeth sydd ar ddod a Gweithredu Deddf Cymru 2017

Trafododd y Pwyllgor y llythyrau a chytunwyd ar ei ymateb iddynt.